CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Vice-Chancellor's Office
Swyddfa'r Is-Ganghellor

**Cardiff University**
Main Building
Park Place
Cardiff
CF10 3AT, Wales, UK

Tel +44(0)29 2087 4835
Email v-c@cardiff.ac.uk

www.cardiff.ac.uk

**Prysgol Caerdydd**
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3AT, Cymru, DU

Ffôn +44(0)29 2087 4835
E-bost v-c@cardiff.ac.uk

www.caerdydd.ac.uk

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1NA

*seneddfinance@assembly.wales*

11 Mai 2018

Cyf: CR/sf

Annwyl Mr Thomas

**Parthed: Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru**

Ar ran Prifysgol Caerdydd, isod ceir ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol a chanddi weledigaeth feiddgar a strategol, sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas hardd a ffyniannus. Daeth ein gwaith ymchwil rhagorol yn 5ed am ansawdd ac yn 2il am effaith ymysg prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014. Rydym yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'n myfyrwyr. Drwy roi pwyslais ar greadigrwydd a chwilfrydedd, ein nod yw cyflawni ein rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, a'r byd.

Ein huchelgais yw bod ymhlith y 100 o brifysgolion gorau'r byd a'r 20 uchaf yn y DU. Mae ein strategaeth newydd yn amlinellu ein cyfeiriad strategol a'n pwyslais ar ymchwil, addysg a myfyrwyr, rhyngwladol a'n cenhadaeth ddinesig.

Mae 31,595 o fyfyrwyr wedi cofrestru gyda ni, sy'n hanu o dros 130 o wledydd, gan gynnwys yr UE. Mae gennym gymuned ymchwil sy'n arwain y byd gyda sylfaen ymchwil gref ac eang: rydym wedi ennill contractau ymchwil â'u gwerth dros £530m. Rydym wedi ennill saith o Wobrau Pen-blwydd y Frenhines ac mae dau o enillwyr gwobrau Nobel ymhlith ein hymchwilwyr.

Dros y misoedd diwethaf mae cydweithwyr a fi wedi darllen papurau Brexit Llywodraeth Cymru ar bolisi masnach a buddsoddi rhanbarthol â diddordeb. Rwyf i'n croesawu ymgysylltu rhagweithiol Llywodraeth Cymru gyda rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu ein heconomi yng ngoleuni'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

The Queen's Anniversary Prizes
For Higher and Further Education
2015

Investors in People

Athena SWAN Silver Award

QAA Cymru
UK Quality Assured
Sicrwydd Ansawdd y DU

Registered Charity No. 1136855
Elusen Gofrestredig Rhif. 1136855

## Trosolwg

Bydd cymorth ar gyfer addysg uwch yn hanfodol os yw Cymru a'r Deyrnas Unedig i sicrhau llwyddiant yn sgil Brexit. Drwy sicrhau setliad effeithiol ôl-Brexit, gall prifysgolion barhau i wneud cyfraniad hanfodol i wlad lwyddiannus sy'n ddeinamig ac yn gystadleuol yn rhyngwladol, a pharhau i ddenu doniau rhyngwladol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn sbardun allweddol ar gyfer ffyniant economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn brifysgol fyd-eang sy'n edrych tuag allan gyda chysylltiadau â thros 100 o wledydd, yn ogystal ag ymdeimlad cryf o genhadaeth ddinesig. Canfu adroddiad gan London Economics[1] yn 2016 fod Prifysgol Caerdydd yn cyfrannu bron i £3bn i economi'r DU, a bod y Brifysgol wedi gwneud cyfraniad o tua £2.2bn i economi Cymru yn 2014-15. Mae Caerdydd yn cynhyrchu £6.36 am bob £1 y mae'n ei gwario, ac roedd yn un o'r pum prifysgol ar y brig yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae ein gwaith ymchwil yn mynd i'r afael â heriau o arwyddocâd byd-eang tra bod ein myfyrwyr yn cael profiad myfyriwr sy'n sgorio ymhlith y gorau yn y Deyrnas Unedig.

Er ein bod yn croesawu'r cynnydd hyd a wnaed hyd yma gan Lywodraeth y DU ar y fargen trawsnewid, mae llawer yn dal i fod ar ôl heb ei drafod. Bydd y trafodaethau hynny'n gymhleth ac mae posibilrwydd cryf y bydd unrhyw gytundeb ar Horizon 2020 ac Erasmus+ yn dibynnu ar ddod i gytundeb boddhaol ynghylch materion eraill fel rhan o becyn, a allai achosi oedi fydd yn ein rhoi dan bwysau amser unwaith eto cyn y bydd Prydain yn ymadael yn gyfan gwbl yn 2021. Mae gwir angen i'r sector prifysgolion ddatrys materion o'r fath o leiaf 18 mis ymlaen llaw – hynny yw, erbyn canol 2019 fan bellaf – er mwyn osgoi newid sydyn, neu o leiaf bwlch rhwng diwedd Horizon 2020 ac Erasmus+ a'r rhaglenni a ddaw ar eu hôl. Byddai bwlch o'r fath yn anodd ac ni fyddai'n sefyllfa ddelfrydol, a gallai olygu y byddem yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n ddigonol â rhaglenni olynol pan fydd gennym fynediad atynt. Ar ben hynny, mae materion cysylltiedig fel treialon clinigol a'r fframwaith diogelu data, a allai gael effaith go iawn ar ymchwil. Ceir ewyllys da ar y ddwy ochr i fynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn a'u datrys, a bydd gennym ddigon o amser i wneud hynny yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar ddatrys y problemau mawr yn ystod y chwe mis nesaf.

Mae'r ymateb isod yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1) Argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol
2) Eglurhad ar frys ynghylch disodli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (ESIF)
3) Arian ar gyfer ymchwil, cydweithredu a rhwydweithiau
4) Statws myfyrwyr a staff o'r UE
5) Erasmus+ a Symudedd myfyrwyr
6) Bargeinion Dinas-Ranbarth Caerdydd

## Argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol

Nodwn adroddiad diweddar[2] y Pwyllgor Materion Allanol i berthynas Cymru yn y dyfodol gyda'r UE, a chroesawn y canfyddiadau canlynol yn gryf:

- **Argymhelliad 6** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n ceisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar yr amserlenni ar gyfer symud i system fewnfudo yn y dyfodol ar y cyfle cyntaf er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau a chyrff sector cyhoeddus ynghylch ystyriaethau recriwtio y gallent eu hwynebu yn y dyfodol.

[1] London Economics (2016) *The economic and social impact of Cardiff University: 2014-15 update*, Llundain: London Economics.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (2018) *Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol: Rhan un: safbwynt o Gymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Argymhelliad 10** Os na cheir cytundeb ar Horizon 2020 ac unrhyw raglenni fydd yn ei holynu rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd y gallai barhau i ddarparu cymorth i sefydliadau Cymru allu cydweithio gyda chymheiriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.
- **Argymhelliad 11** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n edrych ar y potensial ar gyfer rhaglen symudedd myfyrwyr rhyngwladol newydd ar ôl Brexit, a'i bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.
- **Argymhelliad 12** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n mapio holl rwydweithiau presennol yr UE, ar draws pob sector, sydd â sefydliadau Cymreig yn cyfranogi ynddynt. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn erbyn mis Mehefin 2018.
- **Argymhelliad 13** Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori gyda rhanddeiliaid ar bwysigrwydd y gwahanol rwydweithiau hyn, eu manteision i Gymru a pha rwydweithiau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad ar ôl Brexit. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad erbyn hydref 2018.
- **Argymhelliad 14** Argymhellwn, ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad, y dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn cyfranogiad Cymreig yn y rhwydweithiau hyn, ac ystyried y cyfleoedd cyllido a'r goblygiadau i gymdeithas sifil Cymru er mwyn parhau i gydweithio gyda phartneriaid mewn rhwydweithiau allweddol
- **Argymhelliad 17** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n archwilio cyfleoedd i gyrff llywodraethol ac anllywodraethol yng Nghymru allu ymgysylltu'n effeithiol gyda'r UE a'i sefydliadau ar ôl Brexit.

Anogwn y Pwyllgor Cyllid yn gryf i ystyried cadarnhau ac ehangu'r argymhellion hyn fel rhan o'ch ymchwiliad eich hun.

## Eglurhad ar frys ynghylch disodli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (ESIF)

Mae Cymru'n cael yn agos i **£2 biliwn mewn cyllid polisi rhanbarthol,** a defnyddir yr arian hwn i gynnal datblygiad economaidd yn rhai o'n hardaloedd tlotaf. Mae'r bleidlais i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd wedi gadael ansicrwydd ynghylch rhaglenni yn y dyfodol sy'n cynnwys arian Ewropeaidd.

Mae Prifysgolion yng Nghymru yn derbyn cyllid sylweddol o Gronfeydd Strwythurol Ewrop[3], ac mae hynny'n parhau i ddarparu buddsoddiad a chyllid hanfodol ar gyfer prosiectau a seilwaith sy'n cyfrannu at dwf economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop hefyd wedi chwarae rôl bwysig o ran arian arloesedd yng Nghymru[4], a buddsoddiad preifat mewn ymchwil a datblygiad. Ymchwil ac arloesedd o ansawdd uchel yw conglfeini economi twf, ac mae manteision yn deillio ohonynt ar gyfer holl gymunedau Cymru.

Ceisir eglurhad brys ynghylch sut bydd y cronfeydd hyn yn cael eu cynnal neu eu disodli ar lefel ddatganoledig wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd fel bod modd i brifysgolion Cymru barhau i gael cymaint o effaith economaidd a chymdeithasol â phosibl mewn cymunedau ledled Cymru.

---

[3] Mae tua £240 miliwn wedi'i ddyfarnu hyd yma i brifysgolion Cymru ar gyfer cyfnod 2014-2020, yn ôl rhestr o Brosiectau Cymeradwy 2014-2020 Llywodraeth Cymru

[4] Mae Cronfa Arloesedd Addysg Uwch (HEIF) yn sbardun allweddol ar gyfer gweithgaredd arloesedd yn Lloegr, ac mae'r Gronfa Arloesedd Prifysgol (UIF) yn cyflawni rôl debyg yn yr Alban. Nid oes cronfa gyfatebol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae £160m o arian arloesedd yn cael ei ddarparu yn Lloegr, ac yn ddiweddar ychwanegwyd £160m arall at hynny ar gyfer cyfnewid gwybodaeth.

Os bydd y Deyrnas Unedig yn dymuno sefydlu cronfa datblygu rhanbarthol newydd, megis Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig yn lle ESIF, mae'n hanfodol ei bod yn dyrannu cyllid yn briodol ac ar sail system debyg, seiliedig ar anghenion, os ydyw i helpu i gadw'r ddysgl yn wastad o ran yr economi.

## Arian ar gyfer ymchwil, cydweithredu a rhwydweithiau

Ceisir sicrwydd ynghylch mynediad parhaus y Deyrnas Unedig i Horizon 2020 a rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr UE yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ragoriaeth, gan gynnwys FP9, a'r gallu i ddylanwadu arnynt. Os na fydd mynediad o'r fath yn bosibl, rhaid sicrhau cynllun arall fydd yn cynnal ymchwil ryngwladol ar y cyd.

Mae Prifysgol Caerdydd o'r farn bod angen cadw lefel gyffredinol y gwariant ar ymchwil a datblygu fel y mae ar hyn o bryd o leiaf i ddiogelu adnoddau ymchwil a gwyddoniaeth y Deyrnas Unedig, ac i gynnal safle'r Deyrnas Unedig fel un o arweinwyr y byd yn y maes hwn. Mae ymchwil ac arloesedd yn digwydd ar draws y byd, ac yn dibynnu ar syniadau a phobl sy'n gallu symud ar draws ffiniau. Nid yr arian a ddarperir gan yr UE yn unig sydd dan sylw yma, ond hefyd y rhwydweithiau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ymchwilwyr. Mae parhau i gydweithio mewn rhwydweithiau rhyngwladol yn hanfodol bwysig os yw'r Deyrnas Unedig i gynnal ei statws fel arweinydd ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, a datblygu diwylliant o arloesedd.

Os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau mynediad parhaus at Horizon 2020 a rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr UE yn y dyfodol, megis Rhaglen y 9fed Fframwaith (FP9), bydd yn bwysig sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddylanwadu ar y rhaglen ymchwil a'r mecanweithiau ariannu.

Os na all Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau mynediad parhaus, dylai'r llywodraeth sicrhau darpariaeth ar ffurf cyfraniadau uwch i'r gyllideb wyddoniaeth ac ymchwil genedlaethol sy'n cyfateb i'r swm a sicrhawyd trwy Horizon 2020, gan gydnabod bod y Deyrnas Unedig yn un o fuddiolwyr net presennol rhaglenni ymchwil yr UE. Dylai'r Llywodraeth ystyried ychwanegu at fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, megis Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang a Chronfa Newton, sydd wedi'u targedu.

Os na fydd y Deyrnas Unedig bellach yn rhan o fecanweithiau Ewropeaidd ar gyfer ariannu ymchwil ar ôl Brexit, dylai'r Llywodraeth ofyn i Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig (UKRI) awgrymu mecanweithiau eraill, megis Cyngor Ymchwil Rhyngwladol mewn partneriaeth â gwledydd blaenllaw eraill sydd â sylfaen wyddoniaeth uwch ddatblygedig.

Os na ellir sicrhau mynediad digonol at arian, neu os na ellir cael hyd i gyllid hirdymor arall, byddwn nid yn unig yn colli ffrwd ariannu fawr ac unigryw, ond hefyd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn mentrau ymchwil cydweithredol rhyngwladol, sydd yr un mor bwysig. Mae cydweithio o'r fath yn elfen hanfodol o wyddoniaeth ragorol, a gallai unrhyw leihad yn hyn achosi niwed parhaol i ymdrechion ymchwil y Deyrnas Unedig.

Cyfanswm gwerth yr incwm ymchwil yn y dyfodol i Brifysgol Caerdydd o brosiectau byw FP7 a Horizon 2020 a ddyfarnwyd hyd at 30 Ebrill 2017 yw £26.9m, ac mae ceisiadau pellach gwerth £18m i Horizon 2020 ar y gweill. Mae prosiectau ERDF yn werth £39m ychwanegol gyda £7.5m o brosiectau eraill yn disgwyl am gontract. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod £10 miliwn arall o arian grant yng nghamau cynnar cynllunio busnes. Un derbynnydd sylweddol o'r arian hwn yw Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol

Caerdydd. Mae ein mentrau eraill ar y cyd sy'n cael eu harwain gan yr UE yn cefnogi ein hymchwilwyr mewn mwy na 80 o brosiectau Horizon 2020. Ynghyd â'n prosiectau FP7 sy'n weddill, mae'r rhain yn cwmpasu pynciau sy'n amrywio o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gysylltedd ynni adnewyddadwy i ymchwilio i ddiabetes.

## Statws myfyrwyr a staff o'r UE

Mae'n bwysig cadw niferoedd myfyrwyr o'r UE yn uchel yng Nghymru, nid yn unig er mwyn prifysgolion Cymru, lle maent yn cyfrif am 4 y cant o'r holl fyfyrwyr, ond hefyd oherwydd eu bod yn dod ag amrywiaeth i'n corff myfyrwyr ac yn cefnogi'r economi leol. Canfu adroddiad diweddar[5] gan Prifysgolion Cymru y canlynol:

- Cynhyrchodd gwariant myfyrwyr o weddill yr UE oddi ar y campws dros £110 miliwn o allbwn yn y DU (gyda £83 miliwn yng Nghymru).
- Cynhyrchwyd cyfwerth â 934 o swyddi amser llawn yn y DU (692 yng Nghymru).
- Cynhyrchodd myfyrwyr yr UE dros £51 miliwn o Werth Ychwanegol Gros y DU (£37 miliwn yng Nghymru).

Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae 16% o'n staff academaidd a 5% o'n myfyrwyr yn wladolion yr UE (mae 10% o'n myfyrwyr ymchwil yn wladolion yr UE). Cyfrannodd ein myfyrwyr rhyngwladol £217m i'r economi yn 2014/15[6]. Maent yn ased hirdymor i bartneriaethau diwylliannol a masnachol y Deyrnas Unedig. Nid yw llawer o'r cyhoedd yn gweld myfyrwyr fel mudwyr[7], ac nid yw polisi o dorri'n ôl ar y myfyrwyr rhyngwladol er mwyn lleihau lefelau mudo net, felly, yn ymateb i'r pryder ynghylch mewnfudwyr.

**Heb weithredu lliniarol fel ysgoloriaeth neu fwrsariaeth yr UE**, mae Prifysgol Caerdydd yn bryderus y **gallai'r senario waethaf olygu bod Cymru'n colli 80-90 y cant o'i myfyrwyr israddedig presennol o'r UE.**

Nodwn gyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog[8] ynghylch Cronfa Bontio'r UE £50m i gynnig "*cyfuniad o gymorth ariannol a benthyciadau ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyngor i fusnesau. Bydd hyn yn cynnwys cyngor technegol a masnachol, cyngor ar allforio a chyngor sy'n benodol ar gyfer sectorau*." Yn ogystal, bydd y gronfa yn helpu "*cyflogwyr i gadw a pharhau i ddenu dinasyddion yr UE sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i Gymru*". **Credwn fod achos cryf ar i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth penodol ar ffurf bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil o'r UE ar ôl Brexit.**

- O ran **myfyrwyr israddedig ar ôl Brexit**, mae myfyrwyr o'r UE yn debygol o golli mynediad at y cwmni benthyciadau myfyrwyr gan wynebu codiad sydyn mewn ffioedd oherwydd y cânt eu cyfrif yn fyfyrwyr rhyngwladol. Ar hyn o bryd, mae o ddeutu 90 y cant o fyfyrwyr israddedig o'r UE sy'n ymgeisio i astudio mewn prifysgol yng Nghymru'n gymwys i gael benthyciad. Yn ogystal, dan y pecyn Diamond sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn 2018/19, nid yw myfyrwyr o'r UE bellach yn gymwys am grant ffioedd dysgu i liniaru cost eu ffioedd (mae hyn werth £4,954 i fyfyrwyr sy'n parhau) ac nid

---

5 Prifysgolion Cymru (2018) *The Economic Impact of Higher Education in Wales*, Caerdydd: Prifysgolion Cymru.
6 London Economics (2016) *The economic and social impact of Cardiff University: 2014-15 update*, Llundain: London Economics.
7 ComRes (2017) Pôl UUK ar ganfyddiadau'r cyhoedd ym Mhrydain o fyfyrwyr rhyngwladol, Llundain: ComRes.
8 Llywodraeth Cymru (2018) Cronfa £50m i helpu Cymru i baratoi ar gyfer Brexit, Cymru: Llywodraeth Cymru

ydynt chwaith yn gymwys am y grantiau cynhaliaeth a modd prawf sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. O ganlyniad bydd rhaid iddynt dalu'r ffioedd llawn o £9,000 am y tro cyntaf yn 2018/19 er y byddant yn dal i fod yn gymwys am fenthyciad drwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i dalu eu ffioedd tra bo'r DU yn parhau yn yr UE.

Mae ceisiadau israddedig gan fyfyrwyr o'r UE i brifysgolion Cymru wedi dechrau cwympo ar ôl cyrraedd brig o 8,000 yn 2016. Ar gyfer mynediad yn 2017, ymgeisiodd 7,580 o fyfyrwyr o'r UE i astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Roedd hyn yn gwymp o 420 o fyfyrwyr neu 5.3% ers 2016. Mae hyn yn cyferbynnu â ffigurau'r DU, lle ar ôl cael cwymp yn nifer y ceisiadau yn 2017, mae'n ymddangos bod y niferoedd wedi codi yn 2018. [9] Ar gyfer mynediad yn 2017 cwympodd y nifer o fyfyrwyr yr UE a ymgeisiodd i brifysgolion yn y DU 7 y cant, y cwymp cyntaf ers yn agos i ddegawd.

Mae'r Alban eisoes wedi estyn ei hadduned o addysg prifysgol am ddim i fyfyrwyr yr UE i garfan 2019-20. Cyhoeddwyd y penderfyniad ar 1 Chwefror. Roedd yr Alban yn gallu gwneud hyn gan fod ganddi ei threfniadau ei hun, ar wahân i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

- O ran **ôl-raddedigion ar ôl Brexit**, mae hwn hefyd yn faes sy'n newid o ganlyniad i fesurau Diamond. Erbyn 2019/20, bydd y pecyn Diamond llawn wedi'i gyflwyno. Bydd myfyrwyr ôl-raddedig sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru'n gymwys am grant o £1,000 ac yna hyd at £17,000 naill ai mewn grant neu fenthyciad - gan ddibynnu ar brawf modd. Nid yw'r manylion llawn ar gael eto, ond mae i fod yr un peth ag ar gyfer israddedigion, h.y. £9k (ffi dybiannol) o fenthyciad + £1k o grant + £8k (cynhaliaeth dybiannol) o fenthyciad/grant. Nid yw'n glir eto a fyddai myfyrwyr yr UE yn gymwys i dderbyn y grantiau cynhaliaeth dybiannol. Nid yw myfyrwyr israddedig yn derbyn grantiau cynhaliaeth ond mae'n anoddach i fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir sydd wedi bod yn byw yng Nghymru/y DU ers tair blynedd.

  Caiff y trefniadau eu gweinyddu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ran y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Ar ôl Brexit, bydd myfyrwyr yr UE yn colli mynediad at y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sy'n golygu y bydd rhaid iddynt ddod o hyd i'w costau byw a'u ffioedd eu hunain heb ddim o'r cymorth maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

## Erasmus+ a Symudedd myfyrwyr

Mae angen sicrwydd cynnar ynghylch mynediad parhaus i Erasmus+, ond os bydd hynny'n amhosibl neu'n rhywbeth na ddymunir, rhaid sicrhau cynllun amnewid i Gymru neu'r Deyrnas Unedig a fydd yn caniatáu i'n myfyrwyr astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor.

Yn 2015-16, roedd 18% o fyfyrwyr israddedig cartref Prifysgol Caerdydd yn symudol yn rhyngwladol[10]. Bu llawer o'r rhain yn cymryd rhan yn y rhaglen Erasmus+, a oedd yn helpu i wella datblygiad personol myfyrwyr, eu dealltwriaeth ryng-ddiwylliannol, a'u galluoedd

---

[9] Busby, E. (2018) "Number of EU students applying to UK universities surges despite Brexit fears", *Independent*, 5 Chwefror 2018.

[10] Rydym wedi diffinio symudol yn rhyngwladol fel myfyrwyr cartref sydd wedi astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor am o leiaf un mis yn ystod eu cyfnod yng Nghaerdydd.

ieithyddol, yn ogystal â datblygu llawer o'r sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Credwn fod Brexit yn cynnig cyfle i greu rhaglen symudedd allanol ryngwladol newydd a allai efelychu ac efallai wella elfennau mwyaf llwyddiannus Erasmus+. Byddai hyn yn caniatáu i brifysgolion barhau â'u cydweithio gwerthfawr â phartneriaid yn yr UE a chefnogi cyfnodau gorfodol dramor ar gyfer myfyrwyr ieithoedd modern, yn ogystal â chefnogi'r broses ehangach o ryngwladoli addysg yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

## Bargeinion Dinas-Ranbarth Caerdydd

Mae angen cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghylch elfen ariannu UE Bargen Ddinesig Caerdydd, yn benodol y £106m a ddyrannwyd ar gyfer datblygu Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, cytundeb gwerth £1.2bn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a'r 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'n ceisio gwella cynhyrchiant a sbarduno arloesi. Mae'n disgwyl creu 25,000 o swyddi ar draws y rhanbarth a denu gwerth £4bn o fuddsoddiad sector preifat.

Croesawyd yr ymrwymiad ar y cyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cabinet ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd i sicrhau bod y rhaglen ar gyfer y rhanbarth yn cael ei darparu'n llwyddiannus ac yn llawn. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi cyhoeddi buddsoddiad o £50m i helpu i ddatblygu technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd (CS) y dyfodol fel rhan o fuddsoddiad Bargen Ddinesig Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd y Brifysgol a chwmni IQE yng Nghaerdydd, sy'n arbenigo mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd, yn arwain 'catapwlt' cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Yn ddiweddar mae'r 10 cyngor wedi cytuno ar fuddsoddiad o £38m mewn ffowndri newydd â'r holl gyfleusterau modern ar gyfer technolegau CS, gan gefnogi ymhellach ddatblygiad clwstwr CS yng Nghymru.

Mae disgwyl i gyfranogiad y Brifysgol fod yn llawer ehangach na hynny. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhagweld potensial buddsoddi mewn meysydd eraill lle gall y Brifysgol gynnig arbenigedd, megis datblygu meddalwedd a seiberddiogelwch, arloesedd ym maes gwasanaethau cyhoeddus, ynni ac adnoddau, y sector creadigol, iechyd a llesiant, a datblygu Prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Rydym yn ceisio sicrwydd, felly, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch statws cydran arian UE y Fargen Ddinesig, yn benodol y cyllid ERDF mewn prosiectau sydd yn yr arfaeth, sy'n cynnwys cyllid cymeradwy ar gyfer buddsoddi mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd a chymorth busnes, a dyrannu'r £106m cytunedig ar gyfer datblygu Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd o'r ERDF.

## Casgliad

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymroddedig i weithio gyda phartneriaid i gael hyd i'r llwybr gorau i Gymru a gweddill y wlad wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil y bleidlais i adael yr UE, rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i gyfleoedd yn y cyd-destun rhyngwladol newydd. Rydym am barhau i ffurfio trefniadau cydweithredol cynhyrchiol ledled Ewrop a gweddill y byd.

Edrychaf ymlaen at weld adroddiad terfynol y Pwyllgor, a byddwn yn fwy na hapus i gyfrannu at unrhyw drafodaethau y gallech fod yn eu cynnal ar y pwyntiau a godir uchod. Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnoch.

Yn gywir,



Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor